

2020 Rhif (WG20-72)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Cyfarwyddydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir gan adrannau 23(1) a 24(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006⁽¹⁾.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Iechyd a Gofal Digidol Cymru 2020.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 30 Rhagfyr 2020.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr “data gwasanaethau iechyd” (“*health service data*”) yw data a brosesir ar gyfer darparu neu hybu gwasanaethau o dan y Ddeddf neu mewn cysylltiad â darparu neu hyrwyddo gwasanaethau o'r fath;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “y Gorchymyn” (“*the Order*”) yw Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020⁽²⁾;

ystyr “IGDC” (“*DHCW*”) yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru sydd wedi ei sefydlu gan erthygl 2 o'r Gorchymyn;

ystyr “platfformau, systemau a gwasanaethau digidol” (“*digital platforms, systems and services*”) yw caledwedd, meddalwedd a threfniadau eraill ar gyfer casglu, storio, prosesu, dadansoddi, defnyddio a lledaenu data gwasanaethau iechyd yn ddigidol.

(1) 2006 p. 42.

(2) Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020

Swyddogaethau paratoadol

3.—(1) Mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo IGDC i ddatblygu trefniadau gweithredol, trefniadau llywodraethu, trefniadau ariannol a threfniadau eraill at ddiben sicrhau y bydd system effeithiol yn ei lle o 1 Ebrill 2021 i alluogi IGDC i arfer ei swyddogaethau a bennir yn erthygl 3 o'r Gorchymyn.

(2) Rhaid i IGDC gyflawni ei swyddogaethau o dan is-baragraff (1), sy'n baratoadol, at ddibenion sicrhau bod IGDC mewn sefyllfa o 1 Ebrill 2021 i arfer ei swyddogaethau o sylwedd a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.



Vaughan Gething AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Dyddiad 7 Rhagfyr 2020